

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD Y CYFARFOD	Gorffennaf 4ydd 2019
TEITL	INCWM O FEYSYDD PARCIO
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd
AELOD CABINET	Cyng. Gareth Griffith
PWRPAS	Gofyn i'r Pwyllgor Craffu sefydlu Grŵp Tasg i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddadansoddi'r amrediad opsiynau ar gyfer rheoli parcio yn wyneb yr heriau ariannol incwm o feysydd parcio yn y dyfodol

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar y 7fed o Chwefror eleni oedd amlinellu'r holl drefniadau sydd mewn lle gan y Cyngor i reoli ein meysydd parcio. Roedd yr adroddiad yn egluro'n strategaeth parcio a fabwysiadwyd yn 2015 ac yn dadansoddi'r incwm presennol o ffioedd parcio.
- 1.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn adnabod fod her i barhau i geisio cynyddu'r incwm refeniw blynyddol fel cyfraniad tuag at cynnal a gwella is adeiledd ein ffyrdd a strydoedd. Amlinellwyd bod angen edrych i geisio adnabod opsiynau ar gyfer sicrhau cynnydd incwm o oddeutu £180,000. Yn ychwanegol i hyn mae targed o £50,000 wedi ei osod ar gyfer incwm newydd o gynllun gosod offer i wefru ceir trydan.
- 1.3 Yn ogystal, adroddwyd fod gofyn ceisio ymdopi gydag effaith chwyddiant yn flynyddol. Mae effaith chwyddiant yn golygu fod y targed incwm parcio yn cynyddu bob blwyddyn (cynnydd o £197,000 dros y 5 mlynedd ddiwethaf a £47,000 ychwanegol yn y flwyddyn ariannol bresennol) ac felly mae angen ymdrech sylweddol i geisio darganfod ffyrdd i gynyddu'r incwm i gwrdd ag effaith chwyddiant cyn y gellir ystyried sut i gyfrannu tuag at darged arbedion y Cyngor hefyd.
- 1.4 Roedd yr adroddiad yn egluro fod effaith y cyfan o'r uchod yn golygu y gellir amcanu erbyn 2022/23 y bydd angen i'r incwm blynyddol fod oddeutu £450,000 yn uwch nag yw heddiw.
- 1.5 Adroddwyd fod nifer o opsiynau posib yn agored i Aelodau wrth geisio cyfarch y swm sylweddol hwn a chynigiwyd opsiynau pellach gan Aelodau'r Pwyllgor hefyd. Casglwyd fod yr opsiynau y dylid eu hystyried ymhellach yn cynnwys:

- a) Cynyddu'r ffioedd parcio
- b) Newid criteria fel bod mwy o'r meysydd parcio di-dâl yn dod yn rhai talu ac arddangos
- c) Cyflwyno trefniadau talu ac arddangos mewn meysydd parcio dan reolaeth Adrannau eraill o'r Cyngor
- ch) Cyflwyno mwy o beiriannau talu gyda cherdyn "*chip and pin*"
- d) Trosglwyddo meysydd parcio di-dâl i ofal y gymuned a thrwy hynny ceisio lleihau'r costau rhedeg
- dd) Ystyried gosod camerâu mewn rhai meysydd parcio fel bod modd rhyddhau swyddogion i orfodi mewn meysydd parcio eraill

2. DIWEDDARIAD

- 2.1 Yn ychwanegol i'r uchod, yn wreiddiol roedd bwriad i roi ystyriaeth i ddiddymu'r cynllun Parcio am Ddim Dros Gyfnod y Nadolig, a fyddai wedi creu incwm ychwanegol o £45,000. Wrth fabwysiadu'r holl gynlluniau arbedion ar draws y Cyngor penderfynodd y Cabinet i argymhell i'r Cyngor i beidio â chynnwys y cynllun hwn yn y rhestr arbedion terfynol.
- 2.2 Yn sgil hynny, mae'r cyfanswm incwm ychwanegol sydd angen ei ganfod erbyn 2022/23 (fel yr eglurir yn 1.4 uchod) wedi gostwng i oddeutu £400,000.
- 2.3 Roedd penderfyniad y Cabinet a'r Cyngor hefyd yn gofyn am ystyried os oes modd cadw cost parcio i drigolion Gwynedd yr un fath neu ei leihau hyd yn oed. Golyga hyn fod angen gwaith manwl i sefydlu sut fath o drefniadau sy'n bosib eu cyflwyno er mwyn ceisio gwireddu'r dyhead yma.
- 2.4 Mae hwn yn amlwg yn faes cymhleth lle bydd angen dadansoddi manylder ariannol ynghlwm i'r gwahanol opsiynau ynghyd ag ystyried ymarferoldeb gwahanol drefniadau rheoli. Credir y byddai'n fuddiol gallu neilltuo amser estynedig os am sicrhau fod y gwaith yma'n cael ei gyflawni'n drwyadl ac felly gofynnir i'r Pwyllgor adnabod rhai Aelodau i gynorthwyo gyda'r gwaith yma ar ffurf Gweithgor Craffu.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Yn amodol ar gadarnhad fod y maes hwn yn flaenoriaeth gan y Fforwm Craffu, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sefydlu Grwp Tasg, gyda rhai o Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i asesu opsiynau posib ar gyfer cynyddu'r incwm o feysydd parcio ac ar yr un pryd asesu os oes modd gwneud hynny heb gynyddu'r gost o barcio i drigolion Gwynedd.